YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

BEDYDD
SANCTAIDD

GWYBODAETH I RIENI A RHIENI BEDYDD

Trwy Fedydd daw person yn aelod o'r Eglwys, daw ef neu hi'n rhan o deulu Duw a chael yno'r teimlad o berthyn, perthyn i gymdeithas o Gristnogion sy'n fyd eang ac yn cofleidio pawb, a lle y mae croeso a chartref i bawb.

Nid adeilad arbennig yn eich tref neu bentref yn unig yw'r Eglwys ond cymdeithas o bobl wedi uno â'i gilydd i wasanaethu ein Harglwydd Iesu Grist. Maen nhw'n cynnig cymuned glos a chynhaliol lle y gall eich plant neu blant bedydd dyfu i fyny yn rhan o gorff byw Crist.

Dechrau yw Bedydd - nid diwedd. Mae'n nodi dechrau'r bywyd Cristnogol. Mae ar fabanod newyddanedig angen cariad, gofal a sylw wrth iddynt dyfu i fyny. Mae ar berson newydd ei fedyddio angen magwraeth i dyfu i fod yn Gristion aeddfed. Dyna paham y mae rhan rhieni a rhieni bedydd mor bwysig.

Yng ngwasanaeth y Bedydd y mae rhieni a rhieni bedydd yn addo y megir y plentyn yn Gristion, i adnabod a phrofi ffydd fywiol.

Yn y gwasanaeth gwna'r rhieni a'r rhieni bedydd addunedau ar ran y plentyn. Bydd y plentyn yn adnewyddu'r addunedau hyn pan dderbynia fedydd esgob (conffyrmasiwn).

Dyma'r addunedau:

troi oddi wrth ddrwg
credu ac ymddiried yn Nuw
byw mewn ufudd-dod i ewyllys Duw

Maen nhw hefyd yn cytuno:

i fynychu addoliad Cristnogol gyda'r plentyn
i ddysgu ffydd ac arfer Cristnogol i'r plentyn
i wneud yn siŵr yr anogir y plentyn i gael ei gonffyrmio
i weddïo'n gyson dros y plentyn

Felly, fe ffurfir partneriaeth rhwng teulu Duw a'ch teulu chwi.

RHIENI BYDYDD

Faint o Rieni Bedydd sydd eu heisiau?
O leiaf ddau, un Tad Bedydd ac un Fam Fedydd.

Pwy all fod yn Rhieni Bedydd?
Mae'r Eglwys yn gofyn bod 'Rhieni Bedydd' yn Gristnogion Bedyddiedig ac mae'n ddymunol iddynt fod yn gymunwyr cyson yn yr Eglwys yng Nghymru neu Eglwys mewn Cymundeb â hi.

Wrth ddewis Rhieni Bedydd mae'n bwysig iddynt fod yn bobl a fydd yn cyflawni eu dyletswyddau yn gyfrifol.

FFURFLEN GAIS AM FEDYDD PLENTYN

Llenwch y daflen amgaëedig a'i dychwelyd at eich offeiriad plwyf, os gwelwch yn dda. Efallai y bydd am siarad â chwi am oblygiadau Bedydd, a gall ateb unrhyw gwestiwn sydd gennych ynglŷn â Bedydd.

Gweddi i'r Teulu

Nefol Dad, diolchwn i ti ein bod yn rhan o'th deulu.
Cynorthwya ni i fagu ein plant i'th adnabod a'th garu.
Trwy Iesu Grist ein Harglwydd.
Amen.